# GADEWCH LONYDD

Gadewch i'r llwynog hela
I'w g'nafon bach gael bwyd
Ac i'r dylluan lwglyd
Gael pryd o lygod llwyd.

Gadewch i'r mochyn daear
Wneud llanast yn y coed
Ac i'r pathew del a phitw
Gael sleifio'n ysgafn droed.

Gadewch i'r awyr dywyll
Gael bod fel bol buwch fawr,
Gadewch i'r harddwch aros
Nes bod hi'n doriad gwawr.

Gadewch i'r creaduriaid,
Y pry' a'r gwdi-hŵ.
Pwy ydan ni i ddiffodd
Eu t'wllwch prydferth nhw?

*Bl 7, Ysgol Uwchradd Botwnnog*
*5 Mawrth 2026*